rhoi terfyn ar linach y plas hefyd. Credai y mwyafrif (gan gynnwys Green) fod yr hen botsiar ei hun wedi dychwelyd o blith y meirw i gyflawni'r dasg. 'Ych a fi, gas gen i feddwl am y peth,' medd y bwrsar; 'cymrwch ddiferyn o wisgi, Williams.'

* * *

Ychydig cyn Nadolig 1987 cafodd Tecwyn barsel wrth ei fodd o Lundain yn cynnwys mesotint 13x10 modfedd mewn ffrâm ddu gyda label rhwygedig ar y cefn. Wedi ei ludo wrth ei ymyl roedd toriad bach o hen gatalog Britnell. Pleser digymysg, meddai'r llythyr hebryngol manwl oddi wrth gwmni Sotheby Parke Bennet, oedd cael trosglwyddo rhodd mor arbennig i D. Tecwyn Lloyd oddi wrth edmygydd a ddymunai fod yn ddi-enw ond a wyddai am ddiddordeb neilltuol y derbynnydd yng ngweithiau Dr M. R. James. Daethai'r darlun (fel y nododd yr awdur ar ddiwedd y stori) yn eiddo Amgueddfa Ashleian *'but recent impecuniosity compelled the institution to dispose with a substantial part of their collection'*.

Â'r llythyr ymlaen i nodi mai'r cwmni fu yn gyfrifol am werthu llyfrgell a llawysgrifau M R J Tachwedd 9, 1936 (bum mis wedi marw'r perchennog) ac mai eitem 59 oedd: *The Mezzotint*, llawysgrif holograff wreiddiol ar ddeuddeg tudalen ffwlscap a werthwyd am £5.10s. ac sydd yn llyfrgell Coleg Eton. [*Gwir*, hynaws ddarllenydd! Ond daliwch eich anadl am yr hyn sydd i ddod!]

Mewn gwirionedd, esbonia'r llythyr, gwaith William Fleetwood (1656-1723), esgob Llanelwy 1708-14, oedd y mesotint a ddaeth yn ganolbwynt stori M R J, sef yr un amgaeëdig. Gŵr ag iddo barch mawr oedd hwnnw, hynafiaethydd o fri, cyfaill Browne Willis, a chymwynaswr da i'r iaith Gymraeg. Yn 1710 anogodd offeiriaid ei esgobaeth i bregethu yn Gymraeg. Digon tebyg mai cymharol ychydig oedd ei ymdrechion celf ac nad oedd ond dau fesotint o'i waith wedi goroesi yn llyfrgell y palas. Ar ymylwaith y ddau gwelid 'Arlunwaith William Fleetwood sculpit'. Felly, meddai cynrychiolydd Sotheby, mae'r ffaith iddo dalfyrru ei enw ar ymyl y mesotint cynwysedig i 'A. W. F. sculpsit' yn awgrymu cyndynrwydd i gysylltu ei enw ag ef. Eithr ei fod yn teimlo rheidrwydd, oblegid ei ddiddordebau hynafiaethol a diwinyddol, i ddarlunio'r tŷ arbennig yma yng nghyffiniau ei esgobaeth oblegid rhyw drychineb ryfedd o natur ddieflig a gysylltid â'r lle. A mwy nag un, fe ddichon. Yn wir, yn ôl y llythyrwr, goroesodd nodyn yn llaw yr esgob i'r perwyl: *'that he would not exalt the power of evil by further exposition of the matter'*. [Hyd y gwn i, fedrai'r esgob duwiolfrydig ddim tynnu llun i arbed ei fywyd ond roedd yn rhaid esbonio'r llythrennau a'u cysylltu yn agos ag ardal Tecwyn.]

Gydag amser cafodd y tŷ yn y mesotint ei gamadnabod. O sylweddoli hynny mae'n debyg, ceisiodd rhyw gyn-berchennog rwygo'r label i ffwrdd a'r dernyn a adawyd a ysbrydolodd M R J i gysylltu'r llun ag Anningley Hall, Essex, gan honni mai ei ffynhonnell oedd *Murray's Guide to Essex*. Teitl cywir y llyfr yw *Handbook for Essex, Suffolk, Norfolk and Cambridgeshire*, ac fe'i cyhoeddwyd gan John Murray yn 1875. Cheir mo'r fath gyferiad ynddo am y rheswm syml fod Anningsley Park yn West Surrey, ac nad oes debygrwydd o gwbl rhyngddo a'r tŷ yn y darlun. Er mai 'Anhysbys' oedd y tadogiad yng nghatalog Britnell, gwnaed ei leoliad yn wybyddus i M R J gan gydnabod iddo, rhywun, fe ymddengys, mewn urddau eglwysig, un a oedd yn gyfarwydd â'r tŷ a'r chwedl arswydus amdano.

Llyfrgell Coleg y Brenin a Llyfrgell Prifysgol Caergrawnt yw cadwrfeydd y mwyafrif o bapurau M R J. Dengys nodiadau brysiog ar draws dwy dudalen o bapur ysgrifennu y Pitt Club (Kings, MRJ [illegible]) mai'r awdur ei hun, neb llai, oedd y 'Mr Williams' yn y stori. Felly, medd y llythyrwr, mae'n eironig, neu efallai yn glyfar o gamarweiniol yn hytrach fod M R J wedi ysgrifennu yn ei ragymadrodd i *Ghosts and Marvels*, gol. V. H. Collins (1924): *'for some degree of actuality is the charm of the best ghost stories; not a very persistent actuality, but one strong enough to allow the reader to identify himself with the patient; while it is almost inevitable that the reader of an antique story should fall into the position of a mere spectator'*. [Adleisiodd E. H. Francis Thomas y dyfyniad hwn yn dilyn y rhestr (a nodwyd eisoes) o awduron a enwa fel ei ysbrydolwyr, pan ddywed: 'Yr oedd yn rhaid bod yn rhesymol ar bob cyfrif, ac yna, trwy sgrifennu'n ofalus rhaid oedd creu awyrgylch ddieithr i'r rhesymoldeb hwn heb yn wybod i'r darllenydd.']

Yn achos y stori 'The Mezzotint' (â'r llythyr ymlaen i esbonio), daw yn gwbl eglur o ddrafftiau o lythyrau a ddanfonwyd ar droad y ganrif at y Parchedig Robert Jones, Betws Gwerful Goch, a'i olynydd (CUL Add. 7484.1.27 (i), (ii) ) ei fod yn ymwybodol o lawer mwy na *some degree of actuality*.

Fel y gwyddoch, mae'n debyg, (meddai'r llythyr wedyn) mae llawysgrifen M R J yn hynod anodd i'w darllen. Wrth adolygu *M. R. James: An Informal Portrait*, Michael Cox, Rhydychen, 1983, dywed Rosemary Pardoe, golygydd *Ghost and Scholars* 6 (tud. 64): *'As one who has encountered the full horror of M's handwriting, I can sympathise with the "lady typist" who, after tackling the transcription of some of his work, said that she wished these 'University Gentlemen' could write better – and that she, at any rate, wouldn't send any son of hers to the University – prize waste of money in her opinion.'*

Tasg afrwydd, felly, yw datrys ei nodiadau ar yr achos yma, ond credai, mae'n ymddangos, fod y digwyddiadau erchyll mewn perthynas â'r tŷ hwn yn dal i gymryd lle o bryd i'w gilydd. Ni wyddai'r gohebydd presennol a oedd y tŷ yn bodoli o hyd, ond digon tebyg ei fod, am fod M R J yn sôn amdano yn cael ei adnewyddu yn 1905 [dyddiad amlwg ar fur yr hen ficerdy a oedd yn gartref i Tecwyn]. A gwaeth na hynny, caed tystiolaeth mewn llythyrau diweddarach fod y ddrama facabr wedi ei chwarae drachefn ym mis Rhagfyr 1931 pan gafodd plentyn o'r enw Kathlyn Mary, merch i glerigwr, y Parchedig Thomas Jones, B.A., a'i briod, Louisa, ei dwyn yn ddirgelaidd o'r tŷ. Dywed llythyr (CUL Add. 7484.1.28b): *'The child's passing is recorded on a gravestone to the east of a nearby church where her father is the present incumbent'* [prin bod angen dweud ei *bod* yno].

Hyderid y byddai'r nodiadau o gymorth i Tecwyn wrth geisio lleoli'r tŷ os oedd awydd arno i wneud. Digon tebyg y buasai'r perchennog newydd yn falch iawn o'r mesotint a'i gysylltiadau llenyddol nodedig, yn enwedig gan nad oedd olwg bellach o'r ffigwr ofnadwy yn y stori. [Wrth gwrs, (fel y gwelir o'r atgynhyrchiad) erbyn i'r llun ddod i law Tecwyn, yr oedd yno eto yn ei holl erchylltra! Sicrhawyd drwy ymweliad slei gyda chamera polaroid a chymorth T. Gwynn Jones (Abergwaun) fod y tŷ yn bortread cwbl gywir o gartref Tecwyn.]

Diweddodd A. Purpur-Pacche (o Adran Gelfyddyd Gain Sotheby's) ei lythyr gyda dyfyniad o nodiadau M R J (cwbl nodweddiadol o'i storïau) a dyna, mae'n amlwg, ei air olaf ar y mater:

'IOANNES TUMULUS-HARENOSUS IOANNIDIS FILIUS AFFIRMAT HAEC OMNIA TAM INANIA ESSE QUAM QUOD NOMEN SIGNIFICAT.'

Hwyrach y bydd y clasurwyr yn eich plith yn cytuno. Ac am unrhyw un arall, na hidiwch; nid ydych wedi colli dim, ond bu'n ddifyr, gobeithio. Yn sicr dyna oedd barn un a edmygwn ac a garwn yn fawr.



*Roedd Ifan a minne'n arfer byw'n gysurus mewn tŷ braf, ond yna fe ddechreuodd e fynd i'r Ffeiriau Llyfrau felltith 'ma ...*


## Yn Eisiau

*Rhodd Enbyd*. Hunangofiant Gwilym R. Jones
Copi o dudalen 9/10 o'r llyfryn *Ysgol y Clochdy* gan Rhuddenfab, cyhoeddwyd yn Rhuthun, 1880.
Dyw'r llyfryn ddim ar gael, naill ai yn y Llyfrgell Genedlaethol na Llyfrgell Sir Ddinbych.
Cysyllter ar (01745) 813173.

## Ar Werth

*Planet*. Rhifynnau 1-21, 24-5, 28-35, 44, 47, 49-50, 76, 81-83, 108, 112, 117-147. £20 neu'r cynnig agosaf.
*Poetry Wales*. Rhediad cyflawn hyd y rhifyn diweddaraf, mwy neu lai. Ychydig iawn o fylchau. £30 neu'r cynnig agosaf.
Cysyllter â (01970) 828560.

**Ar Werth**

Set cyflawn o lyfrau *Clwb Llyfrau Cymreig 1937-52*
Cysylltwch ar (01678) 540298